**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 28 Mai 2026**

DRAFT

**Ar ran Cyngor Sir Ceredigion:** Cynghorydd Shelley Childs (Cadeirydd), Cynghorydd Elizabeth Evans

**Swyddogion yn bresennol:** Ellie Waters, Robyn Beresford a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr:** Martin Wood, Steve Webb a Kevin Sandover

(5.30pm – 6:15pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Rheolwr yr Harbwr, Mr Owen Morgan am nad oedd modd iddo fod yn y cyfarfod.

**2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2025**

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2025 yn gywir.

**Materion yn codi**

Cytunodd y Pwyllgor ar yr angen i "ailosod" i wella llywodraethiant, cynrychiolaeth gan randdeiliaid ac eglurder Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Cytunwyd y dylai'r Cylch Gorchwyl gael ei gylchredeg i'r holl randdeiliaid perthnasol i sicrhau bod eglurder ynghylch aelodaeth a'r disgwyliadau o ran mynychu cyfarfodydd. Nododd y Pwyllgor mai cyfyng fu'r gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd ac nad oedd yn adlewyrchu holl grwpiau defnyddwyr yr harbwr. Cytunwyd i ymdrechu i gael cynrychiolaeth ehangach yn y cyfarfodydd gan gynnwys gweithredwyr masnachol, defnyddwyr hamdden, clybiau hwylio a defnyddwyr dingis/ cychod hwylio am y dydd.

**3 Diweddariad gan Wasanaeth yr Harbyrau**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod aelod tymhorol o'r staff yn dychwelyd a bod gwaith recriwtio yn mynd rhagddo ar gyfer cynorthwy-ydd arall a fydd yn dechrau ym Mehefin yn ôl y disgwyl, yn dibynnu ar wiriadau. Cydnabuwyd bod gweithlu'r harbwr yn parhau i fod yn fach.

Nododd y Pwyllgor fod archwiliad y Côd Diogelwch mewn Porthladd *(Port Marine Safety Code)* wedi'i gynnal ac wedi canfod bod y gwasanaeth yn cydymffurfio gan mwyaf. Roedd un achos o ddiffyg cydymffurfio yn weddill, mewn perthynas â sut i ymateb i olew yn arllwys. Rhoddwyd gwybod bod polisi yn cael ei baratoi ac y trefnir hyfforddiant i fynd i'r afael â'r mater hwn yn amserol.

Dywedodd defnyddwyr yr harbwr nad oedd ffïoedd lansio yn cael eu casglu yn gyson. Dywedodd Ellie Walters fod angen gwella hyn ac yr ystyrir cyflwyno dulliau talu digidol, megis talu-â-ffôn neu systemau côd QR, gydag arwyddion priodol yn cyd-fynd. O achos strwythur staffio'r gwasanaeth, nid oedd hi'n bosib i'r swyddogion fod yn bresennol yn yr harbwr drwy'r amser.

DRAFT

**4 Rhestr Aros Angorfeydd**

Nid oedd rhestr aros ar gyfer angorfeydd yn Aberaeron, yn wahanol i harbyrau eraill, gan adlewyrchu'r amodau lleol a llai o alw.

Cododd y Cynghorydd Elizabeth Evans bryderon ynglŷn â chodiadau sylweddol yn y ffïoedd angori, sef tua 26% o gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf, a'r effaith bosib ar hyfywedd yr harbwr. Adroddwyd bod Aberaeron yn wynebu heriau gan gynnwys ffenest hwylio gul, harbwr technegol i hwylio i mewn iddo a allai ei wneud yn llai deniadol, gostyngiad yn nifer yr hwylwyr a dim llawer o gyfleusterau. Roedd y Cynghorydd Elizabeth Evans o'r farn y dylid rhoi'r harbwr mewn mesurau arbennig am nad oedd yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor. Dywedodd, pan etholwyd hi gyntaf, fod 100 o gychod yn yr harbwr a'i bod hi'n dorcalonnus gweld y dirywiad wrth i berchnogion cychod werthu eu cychod. Yn ogystal nododd fod sylfaen costau anghyson rhwng y 3 harbwr o achos y gwahaniaethau yn rhent Ystâd y Goron, ac y dylid gostwng ffioedd uchel angorfeydd Aberaeron i ystyried hyn.

Mynegodd un o ddefnyddwyr yr harbwr bryder nad oedd Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi digon o sylw i harbwr Aberaeron. Mynegodd ganfyddiad bod y Cyngor yn rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchu incwm o harbwr Ceinewydd ar draul harbwr Aberaeron, a oedd wedi'i esgeuluso yn ei farn ef. Soniodd hefyd fod y nifer fach a oedd yn y cyfarfod yn adlewyrchu diffyg hyder ymhlith defnyddwyr yr harbwr wrth ymwneud â'r Cyngor. Yn ei farn ef, roedd canfyddiad na fyddai pryderon a fynegir yn cael eu hystyried go iawn, ac mai bwriad y Cyngor oedd lleihau presenoldeb cychod yn yr harbwr.

Awgrymodd y Cadeirydd fod angen strategaeth hirdymor ar yr harbwr gan gynnwys cynllun posib pum mlynedd o hyd i gwmpasu ffïoedd, cynnal a chadw a gwelliannau gweithredu, i atal ansicrwydd o flwyddyn i flwyddyn. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried amodau lleol wrth osod ffioedd. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y Cadeirydd, y Cynghorydd Elizabeth Evans a swyddogion i drafod rhagor ar y cynigion hyn.

**5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y monitro cyson o'r gwaith carthu tywod, a symudiad y gwaddodion a cherrig wrth fynedfa'r harbwr; roedd gwaith yn y cyfamser wedi lleihau faint o dywod sy'n casglu. Mynegodd defnyddwyr yr harbwr bryderon am gost barhaus y gwaith carthu gan fynegi drachefn fod hyn am fod y morglawdd yn wynebu'r ffordd anghywir.

Adroddwyd bod contract tair blynedd ar gyfer llif-olchi â jet ar fin cael ei drefnu a bod gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn parhau.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Wedi'u codi ynghynt yn ystod y trafodaethau ar yr eitemau uchod.